# CYNGOR CYMUNED BUAN

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor, gynhaliwyd nos Iau, 13 Gorffennaf, 2023
Yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy am 7.30 p.m.

Presennol:

Cynghorwyr:

Nia M. Jones
Catherine Hughes
Tesni Jones
Einir Lewis
Phil Roberts
Dafydd Ll. Williams
Hughie Williams

Y Cynghorydd Sirol – Anwen Davies

Nerys Williams - Clerc

## 1. Ymddiheuriadau –

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Wynne Davies a'r Cynghorydd Gareth Roberts.

## 2. Cofnodion cyfarfod 8 Mehefin, 2023

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cynghorydd Hughie Williams (Cadeirydd). Cadarnhawyd Cofnodion 8 Mehefin, 2023, yn gywir gan y Cynghorydd Catherine Hughes ac fe eiliwyd gan y Cynghorydd Tesni Jones.

## 3. Materion yn codi o'r cofnodion:-

Dim.

**4. Polisi Iaith y Cyngor a Rheolau Sefydlog Newydd**

Derbyniwyd Polisi Iaith y Cyngor a Rheolau Sefydlog yn gywir ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

**5. Cais Cynllunio C23/0515/33/LL – Tyddyn y Coed Boduan, LL53 8YH**

Cafwyd cais Cynllunio i greu piswail tanddaearol o dan adeilad amaethyddol presennol yn Tyddyn y Coed Boduan. Fe drafodwyd y cais ac fe'i gefnogwyd yn unfrydol. Gadawodd y Cynghorydd Phil Roberts yr ystafell yn ystod y drafodaeth oherwydd mai ef oedd yr ymgeisydd.

**6. Cynghorydd yn datgan diddordeb**

Y Cynghorydd Phil Roberts (ymgeisydd).

**7. Gohebiaeth**

Cafwyd llythyr gan Gwenllian Carr, Cyfarwyddwr Strategol, Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn diolch am ein cyfraniad i'r Eisteddfod a llythyr arall gan Gwyneth Jones, Greigwen, Rhydyclafdy, yn diolch am yr arian a gafwyd i helpu harddu'r ardal.

Dau rybudd yn cau lonydd – y Cynghorydd Catherine Hughes am eu rhoi fyny yn yr hysbysfwrdd yn y pentref.

**8. Materion Ariannol**

Cysoniad banc o 4 Mehefin, 2023 i 3 Gorffennaf, 2023 wedi ei chael yn gywir yn y swm o £6179.53c.

Cafodd dwy siec eu harwyddo yn ystod y mis gan y Cynghorwyr Catherine Hughes a Dafydd Ll. Williams – 1 i Nerys Williams (Siec rhif 200732 yn lle siec rhif 200727 – oherwydd enw aneglur a'r llall (Siec rhif 200733 yn lle siec rhif 200731) i Bwyllgor Harddu'r Eisteddfod oherwydd enw anghywir ar y siec.

Cafodd y sieciau isod eu harwyddo gan y Cynghorwyr Tesni Jones a Phil Roberts ar ddiwedd y cyfarfod;-

| | | |
|---|---|---|
| Tu Hwnt i'r Afon Cyf | £20.00 | Siec Rhif 200734 |
| Nerys Williams (Mis 4) | £111.79 | Siec Rhif 200735 |
| Cyllid a Thollau | £28.00 | Siec Rhif 200736 |

9. Lwfans Cynghorwyr

Dosbarthwyd ffurflen Lwfans Cynghorwyr i'r rhai oedd yn bresennol er mwyn arwyddo os oeddynt am dderbyn lwfans am y flwyddyn 2023 /2024 a'i peidio.

Mae'r Cynghorwyr nad oedd yn bresennol angen arwyddo y ffurflen hon yn ystod y flwyddyn.

**10. Unrhyw fater arall**

Ysgrifennwyd gair o ddiolch i Teresa Urbanska am ei gwaith yn addurno'r ardal a mynegwyd bod llawer o unigolion eraill wedi bod yn helpu mewn gwahanol ffyrdd drwy baentio, torri gwrychoedd ac ati, a braf yw gweld pawb yn dod at ei gilydd i gael yr ardal i edrych ar ei orau cyn yr Eisteddfod.

***Materion Priffyrdd*** -

Codwyd pryder bod adwy lydan wedi ei hagor ar y ffordd o Blagur, Rhydyclafdy i fyny tuag at Llanbedrog (tro Penrhynydyn). Aelodau o Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd yn ymwybodol o'r sefyllfa gan i'r Cynghorydd Anwen Davies fod wedi cael gair â hwy.

Cafwyd ar ddeall hefyd bod aelod o'r cwmni ADRA wedi cysylltu gydag Anwen Davies i gwyno bod car wedi ei barcio yn anghyfreithlon ar y glaswellt yn nhai Tre'r Ddôl. Gan fod y darn tir yma yn perthyn i Adra nid oes hawl gan berchennog y modur ei barcio yno – mae'r Cynghorydd Anwen Davies wedi cysylltu gyda'r Heddlu i adrodd am y mater.

12. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf -

Nos Iau, 14 Medi 2023 am 7.30 p.m. yn Tu Hwnt i'r Afon Rhydyclafdy.